

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ferodo, Caernarfon (1964-7)

Cyfwelai: VN021 Carol Morris
Dyddiad: 17: 03: 2014
Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Carol ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 25/12/1948. Ganwyd Carol yng Nghaernarfon, yn un o bump o blant, roedd ganddi dwy chwaer a dau frawd. Roedd ei brodyr yn y fyddin, a'r genod wedi aros yng Nghaernarfon. Fel plentyn, roedd y teulu yn byw mewn tŷ 'two up, two down' gyda thŷ bach y tu allan. Wnaethon nhw symud i dŷ mawr yn nes ymlaen. Priododd hi yn y chwedegau.

Roedd ei thad, Albanwr, wedi symud i Gaernarfon gyda'r fyddin ar ddiwedd y rhyfel, cwrdd â'i mam, merch o'r dref, priododd nhw a symud i Aberdeen. Ond, doedd mam Carol ddim yn hoffi'r dref felly symudon nhw yn ôl i Gaernarfon.

Roedd ei thad yn gweithio yn Ferodo ar ôl gadael y fyddin, yn y chwedegau, ac yn yr Orsaf Niwclear yn Ynys Môn wedyn, ac mewn ffatrioedd eraill yn yr ardal. Roedd ei mam wedi gweithio mewn siopau yng Nghaernarfon ac mewn ffatri a oedd tu fas i'r dref yn sicio *bombs*.

Roedd ei mam yn cofio'r *refugees* yn dod i Gaernarfon o Lerpwl yn ystod y rhyfel ac roedd ei mam hi wedi eu derbyn i'r tŷ, er mai tŷ bach *two up, two down* oedd e. Roedd ei mam yn cadw mewn cysylltiad â nhw ar ôl y rhyfel, roedden nhw fel chwirydd dros y blynyddoedd, ac roedd yn teimlo ei bod hi wedi colli chwaer pan fu farw un y flwyddyn wedyn: "**Dyna sut oedd yr ardal adeg hynna, neb yn cau'r dryse.**" Roedd Nain Carol yn byw ar dop y stryd ac roedden nhw'n byw nhw ar y gwaelod. "**Pawb yn galw ei hun *aunties and uncles* a dw i'n bod neb yn perthyn i'w gilydd.**"

Aeth i Ysgol Maesincla yn y pumdegau ac wedyn i Ysgol Segontium; roedd rhaid trio'r *11 plus* i fynd i ysgol arall Caernarfon, sef Syr Hugh Owen. Roedd Ysgol Segontium yn agos iawn, ychydig o filltiroedd, dros gwpl o gaeau. Gadawodd hi'r ysgol yn 15 oed. Roedden nhw'n gallu gadael yn 15 oed, os oedden nhw wedi cael gwaith; os na, roedd yn rhaid iddynt aros tan yr haf.

'On i'n cael fy mhen-blwydd 'Dolig. Doedd dim *holidays really* adeg hynna, roeddech chi'n

cael Dolig, *Christmas Eve* a *Christmas Day* os dw i'n cofio'n iawn, off, ond don na ddim *New Years Day*, dim byd fel 'na. A dw i'n cofio i fi fynd yn ôl i'r ysgol, on i newydd fod am *interview* ac on i'n dechrau gweithio *straight away*, ac on i'n mewn *jeans* yn mynd i'r ysgol a ces i row, on i ddim mewn iwniform, a ddaru mi ddeud "Dw i ddim yn dod yn ôl, dw i wedi cael gwaith."

Cafodd hi swydd mewn ffatri yn gwneud *bras* yn y cei (y ffatri corsets) - "On i wedi dychryn efo *size y cups*. I genod ifanc oedden ni, *oedden nhw'n fawr*. Oedd gynnoch chi'r *steels* 'ma yn mynd i fyny'r ochr a rhai i lawr, a'r corff i mewn, *which* oedden ni ddim ('di) gweld y fath beth yn ein dydd erioed, nag oedden. Oedden ni'n cael hwyl yn fan yno."

8.00 Yn y swydd hon, roedd Carol yn ennill naw punt yr wythnos ac yn meddwl ei bod hi'n gyfoethog. Rhoi dipyn i'w mam a chadw'r gweddill ei hun - pedwar neu bum punt i'w mam, meddai. Roedd hi yno ryw flwyddyn a hanner a daeth Ferodo i Gaernarfon - "Ffatri *brand new*. Ac oedden nhw'n dechrau cymryd plant, plant ifanc. Gynt, pan agorodd o gyntaf, oedden nhw'n cymryd bobl o oedran ond oedden nhw'n dechrau cymryd plant, wel, oedden ni dal yn fod yn blant yn *sixteen*, a wnes i weithio yna a ges i *twenty pound* a week.' Roedd hyn yn y chwedegau cynnar, 1963-4, ac roedd hynna yn arian da, meddai, ac roedden nhw'n medru cael bonws a *overtime*. "So oedd mam yn dal yn cael y pum punt 'ma ac oedden ni'n cael *fifteen*. Mwy na dim, on i'n medru prynu *packet o fags* o'r diwedd, ha, ha." Roedd hi'n prynu dillad ac yn trio cynilo dipyn hefyd.

Aeth i i Ferodo achos roedd hi wedi clywed bod 'na fwy o arian yno "a dyna oedd y peth bob tro, ac adeg hynna oeddech chi'n medru mynd o un gwaith i waith arall yn hawdd." Dywedodd hi fod hi wedi colli amynedd hefyd yn y ffatri corsets. Roedd yn cael hwyl efo'r genod yn y ffatri corsets ond doedd o ddim yn swydd oeddech chi'n hoffi gwneud am flynyddoedd, meddai. Yn Ferodo roedden nhw'n gwneud *brake linings* i geir a *stair treads*. Roedd hi'n gwneud pob math o bethau yn Ferodo: "Beth oedden nhw'n trio gwneud, dysgu'r ifanc i wneud bob dim yna, mewn ffordd, iddyn nhw ffeindio beth oedden nhw'n licio gwneud."

Bu hi'n gweithio yn y swyddfa yn Ferodo hefyd ond doedd hi ddim yn licio hynna. Roedd o'n debyg i *job creation*, meddai, er nad oedd y fath beth yr adeg honno. Roedd hi'n gweithio llawn amser ac yn ennill cyflog oedran 16-18 a 18 -21, meddai. Ar ôl 21 roedd y cyflog yn mynd i fyny. Cafodd hi gyfweiliad ond dydy hi ddim yn cofio sut oedd o. Mae'n cofio cael sioc achos roedd y lle mor fawr ar ôl y ffatri corsets, gyda llawer o bobl yn gweithio yno.

13.00 Pan ddechreuodd hi yn Ferodo, roedd y rhan fwyaf o bobl yn mynd i'r gwaith ar y bws, ond ar ôl blwyddyn neu ddwy, roedd ceir yn dechrau ymddangos, roedd pobl yn gallu prynu car, neu fotor-beic neu scwter, ac roedd y *car park* yn mynd yn fwy ac yn fwy achos roedden nhw'n ennill cyflog da i'r ardal yr adeg honno.

Cafodd hi hyfforddiant ond doedd iechyd a diogelwch ddim wedi dod i mewn. Cafodd hi ychydig o wythnosau i ddysgu a medru ennill bonws ar ben ei chyflog. Ei gwaith cyntaf oedd stensilo rhif ac enw Ferodo ar y *stair treads* a *break linings*, gyda phot paent a brwsio'r enw a'r rhif trwy stensil. Wedyn roedden nhw'n defnyddio peiriant stampio, meddai, ond yn y cyfnod cynnar dyna sut roedden nhw'n gwneud hyn.

Gwnaeth hi dipyn o gymorth cyntaf yno hefyd. Gan ddibynnu ar faint o waith oedd yn dod i mewn, roedden nhw'n symud i weithwyr ifanc.

O ran y bonws, roedden nhw'n eich teimio chi, meddai, ac roedd 'na ddyn yno efo watsh. "Ac oeddech chi'n chwarae rhain i fyny. Oeddech chi'n mynd *slow fach* neu oeddech chi'n tsiecio bod y paent yn iawn i fynd arno, jyst i wneud yr amser ychydig bach yn hirach, - smydgio fo, ac roedd hwnna yn *second*."

Roedd y *brake linings* a'r *stair treads* yn cael eu tsiecio, roedd pob dim yn mynd trwy wahanol tsieciau. Roedd y rhain yn mynd i wahanol *garages* ayyb yn y cyfnod.

Cafodd hi ffrae efo rheolwr yn Ferodo, meddai, ac ar ôl pedair blynedd aeth hi i Ferrantis, tua 1967. Bu hi yno am ychydig o flynyddoedd ac wedyn priododd hi a chael plant.

Roedd Ferodo yn ffatri hyfryd, meddai. Roedd ei thad yn gweithio yn Ferodo hefyd ac roedd ei mam gartre. Ond torrodd y briodas dorri ac aeth pethau o ddrwg i waeth rhyngddi hi a'i thad yn y gwaith ac roedd Carol yn meddwl y byddai'n well iddi hi fynd oddi yna.

Roedd ffatri Ferodo yn enfawr, efo rhannau gwahanol a llwybr i gerdded rownd pob un ohonynt. Doedd y gweithwyr ddim yn cael mynd i mewn i lefydd arbennig oni bai eu bod nhw'n gwisgo'r dillad addas, achos roedd peiriannau yno ac roedd yn beryglus o bosib. Roedd tai bach i'r dynion ac i'r merched a roedd y rheina'n enfawr, meddai, nid fel y tai bach hen fasiwn 'Edwardian' yn y ffatri corsets. Roedd gan y gweithwyr locars eu hunan efo agoriadau, rhywbeth modern iawn. Roedd cawodydd yno ac roedd y genod y dod â dillad glân i mewn ar ddydd Gwener, yn golchi eu gwallt yno, ac yn mynd allan i'r dafarn yn syth o'r gwaith. Roedd 'na stafell gymorth cyntaf mawr yn yr *office block*, roedd y swyddfa ar ddwy lefel. Roedd y cantîn tu fas i'r ffatri, un mawr, gyda dau *sitting*. Roedd pawb yn teimlo fel teulu yno, meddai.

Roedd shifftiau hefyd - chwech tan ddau, dau tan ddeg a deg tan chwech, ac roedd rhai yn dod i mewn wyth tan bump hefyd. Roedd y cantîn yn agor ben bore i wneud brecwast i'r dynion a oedd yn dod *on shift* a mynd *off shift*. Roedden nhw'n gallu cael cinio poeth yno neu ddod â brechdanau i mewn. Roedden nhw'n cynnal partïon Nadolig hefyd yno, ac roedd plant y gweithwyr yn dod hefyd, ac roedd Sion Corn yno ac anrhegion i'r plant.

22.00 Roedd Ferodo yn gyflogwyr da, meddai. Flynyddoedd wedyn, pan oedd y ffatri wedi mynd i berchenogion o America, roedd 'na streic fawr yno, o dair-pedair blynedd, pan drïodd y cwmni newydd dynnu cyflogau i lawr. Roedd gan y ffatri enw arall bryd hwnnw, mae'n debyg.

Doedd y genod ddim yn gwneud shifftiau ond yn gweithio o wyth tan bump. Roedd llawer o'r merched yn gweithio ar dasgau fel peintio a tsiecio neu yn y swyddfa neu'r cantîn, dim y gwaith trwm ar y peiriannau. Roedd yn waith brwnt iawn ac yn fudr ar y peiriannau. Roedd eich dillad yn drewi, meddai, hyd yn oed y bobl oedd dim ar y peiriannau. Roedden nhw'n gwisgo *overalls* hen ffasiwn ac roedd y cwmni yn rhoi'r rhain iddyn nhw, doedd dim rhaid i'r gweithwyr brynu'r eu *overalls* eu hunain.

Ar y peirannau mawr, roedd y dynion yn gwneud y *brake linings* yn un rhan o'r ffatri, a'u torri nhw i wahanol feintiau mewn rhan arall. Roedd 'na *drills* mawr yno i roi'r *screws* i mewn iddynt. Roedd Carol yn rhoi'r gwahanol liwiau, *grey and cream*, arnynt ac enw'r cwmni.

Roedd hi wrth ei bodd yn gwnïo, meddai, ac aeth i yn ôl i wnïo flynyddoedd wedyn yn Laura Ashley yng Nghaernarfon.

Roedd yr iechyd a diogelwch yn iawn, o ystyried mai dyma'r chwedegau, e.e., mewn llefydd lle roedd llwch roedd rhaid i'r gweithwyr wisgo masgiau a sbectolau ar y driliau. Doedd Carol ddim yn gweithio mewn llefydd felly. Dydy hi ddim yn cofio llawer o ddamweiniau, chwaith, er ei bod hi wedi clywed bod ambell i ddyn wedi cwmpo neu lithro, achos roedd rhai o'r peirannau mor fawr, roedd yn rhaid iddyn nhw ddringo i'r ail lefel arnynt, neu ddal eu llaw yn y peiriant. Dydy hi ddim yn gwybod os oedd unrhyw iawndal am ddamweiniau er bod 'na undeb yno ac oedd hi'n aelod **"Wel, cyn i Margaret Thatcher ddod i mewn really, oedd 99% o'r factory yn union led 'te."** Roedd hi'n talu i fod yn aelod, dim allan o'i chyflog ond i'r *union rep* a oedd yn dod rownd bob dydd Gwener, a byddai o yn casglu'r arian ac yn arwyddo'r llyfr bach roedd y gweithwyr yn cario rownd efo nhw ac yn gofyn a oedd ganddynt unrhyw gwyn.

30.50 Unwaith roedd cwyn gan Carol pan oedd hi'n 16 neu 17 oed **"Dw i ddim yn siŵr os on i'n cymeryd o'n *wrong*, neu on i'n rhy *shy*, ond fasach medru galw fo yn *sexual harassment*, te. Roeddwn i'n hogan nobl, *well built* fel merch, a ges i goment gan ddyn. A wnath o upsetio fi a wnaeth un o'r genod hyn glywed a doedd hi ddim yn licio'r ffordd roedd o, ar adeg hynna, fel oedd pethau yn dod allan, dim yn *fair* ar ferched yn gweithio mewn lle oedd 'na dynion hefyd, achos, ers talwm, yn y *corset factory*, roedd honno'n ferched i gyd. So pan on i'n dod allan i'r byd mawr, lle roedd dynion, a wel roedd 'na dynion o wahanol oed, a chafodd hwnnw fynd o flaen y *management*, cafodd o *slap on the wrist*, mewn ffordd, achos doedd o ddim wedi gwneud dim byd, wel roedd o wedi dweud, oedd, ond doedd o ddim wedi gwneud dim byd, ac roedd o wedi cael *warning* a doedd o ddim i fod i siarad â'r genod fel 'na, 'te, enwedig genod ifanc, 'te.'**

Roedd y genod hyn, meddai, wedi arfer gweithio mewn ffatrioedd efo dynion, ond nid genod ifanc, ac roedd y rhain yn gorfod dysgu ac roedd o'n anodd, roedd yn rhaid iddynt ddysgu tra roeddynt yn tyfu fyny. Yr adeg honno, roedd hi'n eithaf cyffredin, i'r dynion wneud comments, neu *wolf-whistle* fel maen nhw pan mae merch yn cerdded heibio *building site*. Mae Carol yn cofio pan oedd hi'n gweithio yn Laura Ashley ugain mlynedd yn ôl ac roedd y merched yn gwneud yr un peth os oedd hogyn yn cerdded trwy'r ffatri. **"Oedden ni'n waeth na'r dynion yn Ferodo i ddeud y gwir. Dw i'n cofio llawer o hogiau ifanc yn blushio o glust i glust yn cerdded trwy'r *factory* yna."**

Doedd dim llawer o ferched ifanc yn Ferodo ar y pryd meddai. Roedd Carol yn nabod un neu ddwy pan aeth i Ferodo ac yn dod â phobol o'r tu fas, roedd pobl yn dod i mewn o bob man i weithio, ar y bws, neu yn rhannu car efo cyd-weithwyr. Roedd Carol yn talu 50p y wythnos i fynd efo rhywun i'r gwaith, yn lle dal y bws. Roedd e dipyn yn bell i gerdded ond roedd yn rhaid iddynt hwy unwaith pan oedd eira mawr - os nad oeddech chi'n troi i fyny, doeddech chi ddim yn cael eich talu. Doedd o ddim yn rhy ddrwg achos roedd hi'n cerdded efo grŵp mawr o gyd-weithwyr. Doedd y bobl o'r cefn gwlad ddim yn gallu cerdded y diwrnod hwnnw ond roedd pobl y dref yn iawn.

39.00 Roedd y gweithwyr yn cael gwyliau haf, Nadolig a gwyliau Pasg; roedd yn rhaid iddynt weithio bore Noswyl Nadolig. Dim cymaint o wyliau fel mae pobl yn ei gael heddiw. Yn ystod gwyliau'r haf, doedd hi ddim yn teithio, jyst mynd rownd y dref neu yn mynd allan i gefn gwlad ar gefn motor beic. Os oedd rhywun yn sâl, mae'n meddwl yn y cychwyn, doedden nhw ddim yn cael tal salwech gan y cwmni ond gan y llywodraeth. Dydy hi ddim yn cofio bod yn sâl erioed. Mae'n meddwl bod hawl iddynt gael amser i ffwrdd am angladd eu mam a'u tad ond doedd hynny ddim wedi digwydd pan oedd hi'n gweithio yno beth bynnag.

O ran yr asbestos yn Ferodo, doedd neb yn gwybod llawer am y peth ar y pryd, er mai asbestos oedd y stwff roedden nhw'n ei roi yn y brake linings, a dyna oedd yr arogl drwg yn y ffatri, meddai. Mae rhai o'r dynion a oedd yn gweithio efo'r asbestos wedi hawlio yn ddiweddar ond

doedd neb yn gwybod ei fod o mor beryglus pan oedden nhw'n gweithio yno. Doedd y stwff ddim yn effeithio ar y merched, meddai Carol, achos doedden nhw ddim yn gweithio'n unionyrchol gyda fo. Roedd y dynion yn gwisgo masgiau ond ar adegau roedden nhw'neu tynnu nhw, e.e. i gerdded oddi yna. Dydy Carol byth wedi teimlo'n sâl achos gweithio yn Ferodo.

Dydy Carol ddim yn teimlo am y gwaith ffatri un ffordd na'r llall; roedd hi'n mwynhau cwmni'r merched. Doeddech chi ddim yn meddwl, ar y pryd, bod 'na pethau gwell i'w gwneud, meddai. **Doedd hi ddim wedi pasio dim byd yn yr ysgol ac, fel llawer o ferched fel hi, gweithio, priodi a chael plant oedd y cynllun. Cwrddodd hi â'i gŵr yn Ferodo a phriododd nhw yn 1968 a chafodd hi ei phlentyn cyntaf yn 1969; roedd ei mam gartref, felly aeth Carol allan wedyn i wneud tipyn o waith fel *waitress* i gael pres.**

Yn y ffatri, doedd pobl ddim yn gallu siarad llawer, dim ond wrth y bobl roeddech chi'n gweithio drws nesaf iddynt, ac yn y cantîn. Cafodd hi ei symud o'r un lle i'r llall, meddai, gorfod mynd â phethau a phapurau o gwmpas, a doedd hi ddim yn nabod pawb wrth eu henwau, ond pawb wrth eu hwynebau.

Yn ogystal â pharti plant Nadolig, roedd 'na bartïon eraill hefyd, e.e. Côt Ferodo, sydd nawr yn Côt Caernarfon. Doedd Carol ddim yn aelod achos dydy hi ddim yn gallu canu, dim ond ar ôl 'dau neu dri pheint.' Roedd 'na dîm pêl droed yno a oedd yn chwarae ar gae ar bwys y ffatri. Roedd y ffatri yn ddigon mawr i gynnal partïon er eu bod nhw'n dechrau mynd allan i ryw hotel i ginio Nadolig fel roedd y ffatri yn tyfu. Roedd y gweithwyr yn cael cinio mewn shifftiau hanner awr hefyd pan oedd llawer o bobl yn gweithio yno.

48.00 Dydy hi ddim yn gallu cofio faint yn hollol oedd yn gweithio yno pan oedd hi yno ond roedd o'n sioc fawr, meddai, i ddod o ffatri fach corsets, lle roedd rhyw saith deg yn gweithio, i le mawr fel Ferodo a oedd yn 'massive.' Roedd mwy o ddynion na merched, achos **“mwy na thebyg, gwaith oedd merched wedi arfer efo, cael gwneud, oedd gwnïo, offis, siopau.”** Aeth ei chwaer fach i weithio yn Smiths yng Nghaernarfon.

Gwnaeth Carol adael Ferodo cyn priodi achos ffræ efo'r rheolwr. Roedd ei thad yn Albanwr ac yn methu siarad Cymraeg ac roedd ei rhieni yn mynd trwy broblemau efo'r briodas. Un diwrnod, roedd Carol yn cael poen misglwyf ac aeth i i'r stafell gymorth cyntaf i ofyn os oedd hi'n gallu mynd adre. Clywodd hi'r rheolwr personél yn siarad wrth y nyrs yn y Gymraeg ac yn dweud 'Be diawl mae'r hogan 'ma yn mwydro amdan.' A dywedodd rywbeth am ei rhieni. “Es i balistic, do. Am fod dad yn siarad Saesneg, oedd o'n meddwl mai Saesneg on i, achos oedd o ddim yn ‘n nabod i, so wnes i droi rownd a deud wrtho fo, wel, oedd na cymaint o *bleeps* ynddo fo, oedd o yn Gymraeg i gyd, a Saesneg oedd y *bleeps*, a wnaeth o ddeud wrtha i am fynd, a fi'n deud 'dw i'n mynd.' A wnes i gerdded trwy'r *factory* i gyd. 'Paid â botheran clocio allan', medda fo wrtha i. A dywedais i wrtho fo 'Dw i'n clocio allan,' medda fi, 'dach chi'n talu fi tra fi yn y *building*.' Oedden ni wedi cael ein dwyn i fyny yn yr iwnion, so on i'n gwybod be on i wneud 'te. Wnaeth mam yrru? mi yn ôl y diwrnod wedyn i apologisio am be on i wedi deud ond wnaeth o droi ar mam eto, ond ar mam ei hun tro ma, a finnau'n deud 'Does neb yn siarad wrth mam fi fel na.' So ar y bws oedd fi a mam, o na i Ferranti, a ches i job yna yn Ferranti.”

Ar ôl hyn, ac ar ôl i'w rhieni wahanu, cafodd mam Carol job yn Ferranti hefyd. Wnaeth Carol ddim gwneud cwyn am ddiswyddo annheg. Roedd hi'n teimlo'n falch yn cerdded allan trwy'r ffatri. Cafodd hi ei chyflog hefyd. “Swn i wedi cario'n ymlaen gweithio yno”, meddai hi, heblaw am hyn. Roedd hi'n meddwl bod y dyn yno ddim llawer o fonheddwr i siarad am ei mam, na neb arall, fel

hynny. Roedd hi'n wyllt bod y dyn wedi deud y pethau annheg hyn yn y Gymraeg achos roedd o'n meddwl nad oedd hi'n deall. Gwnaeth hi ei alw o'n *'Red headed Welsh nationalist.'* Y diwrnod wedyn, pan oedd ei mam wedi gorfodi iddi ymddiheuro, ond wnaeth y peth ddechrau eto a *'ges i slap gan mam'* am y *bleeps*, meddai, wrth y giât, achos doedd hi ddim yn gallu mynd i mewn i'r ffatri.

Yn Ferranti, roedd hi'n gweithio yn yr adran a oedd yn gwneud pethau trydanol, dydy hi ddim yn cofio'n iawn, ond mae'n meddwl bod hi'n gwneud rhannau bach ar gyfer teleffonau. Roedd gan ei mam ddau o blant bach hefyd pan ddechreuodd hi weithio yn Ferranti (?). Doedd hi ddim yno am hir achos roedd hi'n priodi yn fuan. Cafodd hi'r plentyn cyntaf yn 1969 a'r ail yn 1971, ac roedd hi gartre ganddyn nhw am dipyn, ac wedyn mynd allan i wneud swyddi rhan amser fel waitress mewn siop, jyst i gael dipyn o bres ychwanegol i'r plant, ac wedyn cafodd hi swydd fel *lollipop lady* yn yr un ysgol lle oedd ei phlant yn mynd i'r ysgol. Roedd ei phlant 'y cyntaf yn mynd o 'na a'r ola i ddod o na.' Roedd ei gŵr yn dal i weithio yn Ferodo tan iddo gael ei ddiswyddo (redundancy) adeg y streic fawr (Camni Friction Dynamix streic 2000au). Ond roedden nhw wedi gwahanu a chael ysgariad ddeng mlynedd ar ôl priodi, yn rhy ifanc, meddai.

Ar ôl hynny, penderfynodd Carol fod hi ddim eisiau byw ar y llywodraeth, a chafodd hi swydd yn gwnïo mewn ffatri yn Llanberis, yn gwneud dillad i'r lluoedd arfog, cotiau ayyb. Adeg Rhyfel y Falklands cafodd hi ei tharo i weld ar y teledu y dynion oedd ar y Sir Galahad yn neidio i mewn i'r môr yn y siwtiau oren 'fel babygrow' efo hood roedden nhw wedi'u wneud yn y ffatri. Roedd merched y ffatri wedi bod yn gwneud *overtime*, ac yn gweithio'n galed i gael y siwtiau hyn yn barod ar gyfer y rhyfel. Roedd hi'n gallu deall beth roedd ei mam wedi dweud wrthi am adeg yr Ail Ryfel Byd, pan oedd merched yn gweithio mewn ffatrïoedd ac roedd y dynion yn mynd i ffwrdd i ymladd - roedd ei mam, adeg yr ail ryfel, yn gweithio mewn ffatri, tu fas i Gaernarfon, yn tsiecio bomiau. I Carol, roedden nhw i gyd yn ennill mwy o arian trwy'r *overtime*, ond wrth weld y dynion ar y Sir Galahad roedd hi'n ypset iawn, achos hyn; a bod rhai o'r hogiau o Gaernarfon, gan gynnwys un a oedd wedi marw ar y llong 'na. Yn y ffatri, doedden nhw ddim yn gwneud y siwtiau ond yn gwnïo'r deunydd ar eu cyfer, ac yn gwneud y 'joints' yn 'waterproof' gan roi tâp du oddi fewn gyda glud arno fo, a thâp arall y tu allan. Roedd y gwaith yn fyw diddorol ar ôl gweld y dynion yn y rhyfel yn gwisgo'r siwtiau hyn. Glyn Protective Clothing oedd y ffatri hon a caeodd hi ychydig o flynyddoedd wedyn a chafodd hi redundancy.

1.03 Roedd y cwmni wedi dweud ei bod hi'n mynd i gau ac felly roedd gan y gweithwyr amser i ffeindio rhywbeth arall. **Clywodd Carol bod Laura Ashley yn agor yng Nghaernarfon a chafodd hi swydd yno. Yr adeg honno, mae'n galw ei hun yn 'ddynes mewn oed' ond yn ei thridegau yr oedd hi ond roedd genod ifanc yn y cyfweliad, a dywedodd hi wrth y manager *'Well, I've come here for an interview but I can see you've got a lot of young girls.'* *'Well, you've had your children. I've just looked at her hand, she's engaged, she'll be getting married.'* Bydd hi'n anodd dewis, meddai Carol wrtho. Roedd yn rhaid iddynt gael tro ar y peiriant. Yn Glyn Protective, dywedodd, roedd y peiriannau'n hen ond roedden nhw'n gwneud y tric; yn Laura Ashley roedd y peiriannau yn newydd sbon ac roedd Carol yn panicio bod hi ddim yn gallu eu defnyddio nhw. Ond gwnaeth hi'n iawn a chafodd hi'r swydd. Ffugio oedd hi, meddai hi, bod hi'n gallu gwneud y gwaith. Roedd hi angen y swydd achos bod ganddi ddwy ferch gartre. Bu hi yn Laura Ashley am 13 o flynyddoedd, o tua'r 80au cynnar tan ddechrau'r 90au ac mae'n dal mewn cysylltiad efo'i chydweithwyr ar *Facebook*. Cafodd hi *redundancy* hefyd o'r ffatri hon hefyd, pan werthodd Laura Ashley i gwmni a oedd yn gwneud dillad i Marks and Spencers. Roedd y cwmni newydd wedi addo cadw'r gweithwyr mewn gwaith ond roedden nhw wedi mynd lawr i ryw 90 o dros ddau gant.**

Roedd Carol yn meddwl y byddai hi'n iawn ond cafodd y ffatri ei chau yn yr un flwyddyn ag y caeodd Laura Ashley (2004?). **Roedd hi'n union rep ar y pryd a gofynnodd y BBC iddi os fyddai hi'n gwneud rhaglen am ffatrioedd a oedd yn mynd â'i gwaith allan o'r wlad.** Cwrddodd hi a merched eraill â pherson y BBC yng ngwesty'r Castell yng Nghaernarfon ac roedd yn gofyn iddi beth roedd hi a'r merched eraill yn ei wneud ar ôl cael eu diswyddo. Atebodd Carol ei bod hi wedi cael gwaith rhan amser yn y Royal Hotel, rhywun arall wedi mynd i waith cyfrifiadurol, ond roedd hi'n anodd mynd lawr ar ôl ennill cyflog da, er mai 'pocket money' oedd hi'n ei gael yn Laura Ashley. Aeth y BBC â'r merched i Marks and Spencers yn Llandudno, rhoi arian iddyn, a gofyn iddynt fynd i mewn, prynu dillad iddynt tsiecio'r labeli. Doedden nhw ddim y caniatáu i'r cameras fynd i mewn i'r siop felly prynon nhw'r dillad a mynd â nhw tu fas. Doedd dim un o'r dillad wedi'i wneud yn yr UK ac roedd y safon yn wael iawn. Dydy hi ddim yn cofio enw'r rhaglen. Cafodd hi *reunion* efo rhai o ferched Laura Ashley ddwy flynedd yn ôl yn y clwb pêl droed yng Nghaernarfon. Dydy hi ddim mewn cysylltiad gymaint efo'r bobl oedd hi'n gweithio efo nhw yn Ferodo.

Wrth edrych yn ôl, doedd y ffatri ei hun ddim yn lle braf i weithio ond roedd y cwmni gafodd hi a'r ffrindiau a'r hwyl mae wedi ei gael. Mae ganddi atgofion da am Laura Ashley, y ffatri yn tyfu i gyflogi dros ddau gant o bobl, a'i merch hi'n mynd lawr efo'r cwmni i chwarae *netball* yn Carno. Roedden nhw'n cael partion da, fel *fancy dress*. Mae'n cofio un Nadolig yn y cantîn, lle roedd yn cael dau *sitting* achos roedd y cwmni mor fawr. Roedd ei merch yn gweithio yno hefyd ac, am ryw reswm, daeth y ferch yma i eistedd gyda'i mam yn lle eistedd ar fwrdd arall gyda'i ffrindiau. Daeth Sion Corn iawn, dyn tenau wedi gwisgo i fyny, ac roedd o'n deud bod rhywun yn cael pen-blwydd arbennig. '*Kissogram*' oedd o, a wnaeth o ddeud wrth Carol '*unwrap me.*' Roedd ei chydweithwyr wedi trefnu hyn ar gyfer ei phen-blwydd 40 oed ac roedd hyn yn y cantîn yn y ffatri o flaen dau gant o bobl a phawb yn chwethin, ac roedd pawb yn y ffatri yn gwybod am hyn heblaw Carol.

Ar ail ran y tap, roedd Carol yn son am arfer yn ffatri Laura Ashley, Caernarfon, yn y 1990au. Pan oedd rhywun yn priodi, roedd yn rhaid iddynt gerdded rownd y ffatri mewn dillad yr oedd y gweithwyr wedi'u gwneud iddynt. Y diwrnod pan oedd hi'n priodi, roedd hi'n gwybod bod hyn yn mynd i ddigwydd iddi ac roedd yn rhaid iddi eistedd ar ei mashîn drwy'r dydd mewn ffrog hyll Laura Ashley. Pan ddaeth yr amser i glocio allan, roedd hi'n bwriadu newid i mewn i'w dillad ei hun ond pan aeth hi allan trwy'r drws, roedd pawb yn aros amdani, bob ochr, a wnaethon nhw daflu wyau, saws coch, finegr, botymau, pob math o bethau drosti. Roedd hi'n drewi yn cerdded adre.

Hyd: 1 awr 20 munud

English summary

Ferodo, Caernarfon (1964-7)

Interviewee: VN021 Carol Morris

Date: 17: 03: 2014

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Carol was born on 25th December, 1949 in Caernarfon. She was one of five children and had two sisters and two brothers. Her brothers were in the army while her sisters stayed in Caernarfon. The family lived in a two-up-two-down house with an outside toilet, although they moved to a larger house later on. She got married in the 1960s.

Her father was Scottish and moved to Caernarfon with the army at the end of the war where he met her mother. They married and moved to Aberdeen but Carol's mother didn't like it and they moved back to Caernarfon.

Her father worked in Ferodo after leaving the army in the 1960s, in the Nuclear Power Station on Anglesey and in other factories in the area. Her mother worked in shops in Caernarfon and in a factory outside town checking bombs.

Her mother remembers refugees coming to Caernarfon from Liverpool during the war, and her mother welcomed them into the house even though it was only a two-up-two-down. Her mother kept in contact with them after the war and felt as if she had lost a sister when one of them died a year later. It was a very close knit community at the time.

Carol went to Ysgol Maesincla in the 1950s and then on to Ysgol Segontium. She left school when she was fifteen years old, which was possible then if you had work to go to.

'I had my birthday at Christmas time. There were no holidays as such at that time, you had ... Christmas Eve and Christmas Day ... not New Year's Day or anything like that. And I remember going back to school, I'd just been for an interview and I was starting work straight away, and I was wearing jeans and I had a row because I wasn't in uniform and I said, "I'm not coming back, I've got a job."

She got a job making bras in a factory on the quay (the corset factory). **"I was shocked at the size of the cups. To a young girl, they seemed huge. You had these steels going up the side and some went down, and the body went in, and I'd never seen anything like them before. We had a lot of fun there."**

8.00 Carol earned nine pounds a week in the corset factory and thought she was rich. She would give her mother four or five pounds and keep the rest herself. She'd been there for a year and a half when Ferodo came to Caernarfon. "It was a brand new factory and they were taking children on. When it first opened they took on people of all ages ... and then they started taking on children ... well we were still sixteen, and I went to work there and I got twenty pounds a week.' This was circa 1963/4. She was earning good money and could earn a

bonus with over-time. **"So mam was still getting the five pounds and now I was getting fifteen. But best of all, I could buy a packet of fags at last, ha, ha."** She bought clothes and tried to save some money.

She went to Ferodo because she'd heard the money was better. It was easy going from one job to the other. The corset factory wasn't the type of place you'd like to stay forever. In Ferodo they made brake linings for cars and stair treads and encouraged the youngsters to learn to do everything in order to find out what they liked doing the best.

She worked in the Ferodo office but didn't like it. Workers were paid according to their age. For youngsters this was 16-18 years old and 18 -21 years old. The wage went up when they were 21 years old. She was given an interview and was shocked at how large the factory was compared to the corset factory.

13.00 Most people travelled to Ferodo by bus when she started working there but after a year or two people starting buying cars and motor bikes and the car park got bigger and bigger.

She was given a few weeks training and could earn a bonus on top of her wage. Her work was stencilling the number and Ferodo name on the stair treads and brake linings. She used to do this with a pot of paint and stencil, but later on they used a stamping machine.

A man timed them at their work in order to work out the bonus rate, and they would deliberately do the job slower when he was doing this.

She quarrelled with the managers in Ferodo after she had been there for four years and went to Ferranti circa 1967. She was there for a few years and she got married and had children.

Ferodo was a lovely factory but when Carol's parents separated things went to bad from worse with between her and her father who was working at the factory. Carol thought it best for her to leave. (She tells the story of why she left later on.)

The Ferodo factory was huge and had many different sections. The workers weren't permitted to enter some parts unless they were wearing the appropriate clothing due to the machinery there. The toilet facilities there were spacious, unlike the old-fashioned Edwardian toilets in the corset factory. They had their own lockers and there were showers there. The women would bring clean clothes in with them on a Friday, wash their hair, and go straight out to the pub. There were first aiders in the office block, which was on two levels. The canteen was outside the factory and they had two sittings. There was a family atmosphere there.

There were three shifts – six until two, two until ten, and ten until six. The canteen opened early to make breakfast for the men coming on and off shift. They could have a hot dinner there or bring their own sandwiches in. They held Christmas parties and the workers' children would be there and be given a present by Santa Claus.

22.00 Ferodo was a good employer. There was a strike there years later after it had been taken over by American employers because they tried to cut wages. It lasted for three to four years

The women worked from eight until five and didn't work shifts. They did jobs like painting, checking, office work, or canteen work but didn't do the heavy, dirty work on the machines.

Everybody's clothes stank, even the people who weren't on the machines. They wore old-fashioned overalls supplied by the company.

The men made brake linings on the large machines in one part of the factory, and they were cut to size in another part. There were large drills there to put the screws into them. Carol would put the grey and cream colours onto them.

She loved sewing and went to Laura Ashley's in Caernarfon years later.

Carol didn't work in a dusty atmosphere. She doesn't remember many accidents taking place there. There was a union. She said, **"Well, before Margaret Thatcher came in 99% of the factory was union led." She paid her unions subs directly to the representative who came round every Friday, collected the money and asked them if they had any complaints.**

30.50 Carol had a complaint when she was sixteen or seventeen. "I'm not sure if I took it the wrong way, or if I was too shy, but you could call it sexual harassment. I was a well-built girl, and I had a comment from a man. And it upset me and one of the girls heard and she didn't like it ... it wasn't fair on girls working in a place where there were men working because years ago in the corset factory, it was just girls working there... and he had to go in front of the management and got a slapped wrist, because he hadn't done anything, but had said something, but he hadn't done anything and he got a warning and he wasn't to speak to girls like that, especially young girls.

The older women were used to working with men in factories, but not the young girls. They had to learn while they were growing up. At that time it was quite common for men to make comments or wolf-whistle as they do when a woman walks past a building site. When Carol worked in Laura Ashley twenty years ago the women would do the same thing if a lad walked through the factory. **"We were worse than the men in Ferodo to say the truth. I remember many young boys blushing from ear to ear, walking through that factory."**

There weren't many young girls working in Ferodo at the time. Carol knew one or two when she went to work there. People travelled from everywhere by bus or by car with colleagues. Carol paid 50p a week to somebody for a lift instead of getting the bus. Carol and a group of workers had to walk to work once when it had been snowing heavily and they wouldn't have got paid if they hadn't gone to work. This wasn't possible for the workers who lived in the country.

39.00 They had holidays in the summer, at Christmas and Easter. (They had to work Christmas Eve morning.) During the summer holiday she went round town or out to the countryside on a motor bike. If somebody was off ill from work she thinks they were paid by the government rather than the company. She doesn't remember ever being off ill from work.

They used asbestos in the brake linings but nobody knew it was harmful at the time, but it caused a nasty smell in the factory. Some men have tried to claim money for its effects recently. They wore masks but would take them off at times, for example when they were walking off. It didn't affect the women because they didn't work directly with it and Carol never felt ill as a result of working at Ferodo.

Carol enjoyed the company of the women in the factory and never thought about working somewhere better. **She didn't pass anything at school so like many girls like her the plan was to get work, get married and have children. She met her husband in Ferodo and they married**

in 1968. Her first child arrived in 1969 and because her mother lived at home and could look after her child Carol could earn a little money as a waitress.

There wasn't much opportunity to chat with anyone in the factory unless you were working next to them or if you saw them in the canteen. She didn't know everybody by name, but she knew everybody's face.

As well as the Christmas party there were other social activities such as Ferodo Choir (which became Caernarfon choir), and the football team. Carol wasn't a member as she couldn't sing. The factory was big enough to hold parties but they started going out to hotels as the workforce grew. The workers had lunch in half hour shifts when there were lots of people working there.

48.00 It was a shock for her going from a small factory like the corset factory to a 'massive' factory like Ferodo. There were more men than women working there.

Carol left Ferodo before getting married because she quarrelled with a manager. One day Carol was suffering from period pains and went to the office and asked if she could go home. Her parents were experiencing marital difficulties at the time. She overheard the personnel manager making a comment about them in Welsh because he thought she couldn't understand. She says she went ballistic and swore at him and he told her to leave. He told her not to bother clocking out but she insisted because she wanted to get paid. Her mother sent her back the next day to apologise but this time he turned on her mother. Carol told him that nobody spoke that way to her mother and they left and she got a job straight away in Ferranti.

After her parents split up Carol's mother got a job in Ferranti. Carol was glad she'd walked out of Ferodo. She also received her wages. She was angry that the manager had made disparaging comments about her parents in Welsh because he thought she didn't understand. She called him a red headed Welsh nationalist. She'd sworn when things kicked off again when she went there to apologise with her mother, and her mother gave her a slap outside the factory.

In Ferranti she thinks she made parts for telephones. Her mother had two small children when she started working in Ferranti. Carol wasn't there for long as she had her first child in 1969, and the second in 1971. After waitressing she got a job as a lollipop lady in her children's school. Her husband was still working at Ferodo. He was made redundant at the time of the big strike (Camni Friction Dynamix in 2000) but they had separated and divorced ten years after getting married.

After this Carol decided that she didn't want to live off the government and got a job in a factory in Llanberis that made clothes for the forces. At the time of the Falklands War she was struck by the image she'd seen on the television of the men of the Sir Galahad jumping into the sea wearing the orange 'babygrow' suits they'd made in the factory. The women in the factory had been working hard doing overtime to get these suits ready for the war, and had earned extra money but she got upset when she saw the men of the Sir Galahad. There were boys from Caernarfon on board, one of whom died. They didn't make the suits in the factory but sewed the material and made waterproof joints. The work was more interesting after seeing the men wearing the suits. The factory was called Glyn Protective Clothing and closed a few years later so she received redundancy.

1.03 The company had told them the factory was closing so that the workers had time to look for other jobs. **Carol heard that Laura Ashley was opening in Caernarfon and she got a job there.**

She was in her thirties at the time and there were younger women at the interview and she told the manager, 'Well, I've come here for an interview but I can see you've got a lot of young girls.' 'Well, you've had your children. I've just looked at her hand, she's engaged, she'll be getting married.' They had to have a go on the machines. **In Glyn Protective the machines were old but in Laura Ashley they were brand new and Carol was panicking that she wouldn't be able to use them. She did okay and got the job. She was faking that she could do the job. She needed it because she had two daughters.** She was at Laura Ashley for 13 years, from the early 1980s until the early 1990s and is still in contact with her colleagues on Facebook. She received redundancy from this factory as well, when Laura Ashley sold to a company making clothes for Marks and Spencer. The new company had promised the workers that they would keep their jobs but they cut the workforce down from over two hundred to ninety.

Carol had thought she would be fine but the factory was closed in the same year that Laura Ashley closed (2004?). **She was a union rep at the time and the BBC asked her if she would make a programme about factories that were taking their work out of the country.** They looked at the clothes being sold in shops – they had been made abroad and were of poor quality. She had a reunion with some of the women from Laura Ashley two years ago in the football club in Caernarfon. She is not in contact as much with the people from Ferodo.

Looking back, she thinks the factory wasn't a nice place to work but there was good company there and she made good friends. She had fond memories of Laura Ashley – the factory grew to employ over two hundred people. Her daughter worked there too and they went down with the company to play football in Carno. They had good parties, such as fancy dress parties. She remembers one Christmas in the canteen and they had to have two sittings because the company was so big. Santa turned up but he was actually a Kissogram hired for her as she was celebrating her fortieth birthday and he told her to 'unwrap him'.

Carol talks of Laura Ashley factory in Caernarfon in the 1990s. Whenever anyone got married they had to walk around the factory in clothes that the workers had made for them. When she was getting married she knew that this was going to happen to her and she had to sit at her machine all day in a really horrible Laura Ashley dress. When clocking out time came she'd intended changing back to her own clothes but when she went out the door everybody was waiting for her on the other side and they threw eggs, tomato sauce, vinegar and all types of things at her. She stank as she walked home.

Duration: 1 hour 20 minutes